GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A470 (STRYD Y BONT, LLANRWST, CONWY) (GWAHARDD CERBYDAU, BEICWYR A CHERDDWYR DROS DRO) 2021

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn arfaethedig er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A470 neu gerllaw iddi, yn Stryd y Bont, Llanrwst ym Mwrdeistref Sirol Conwy.

Effaith y Gorchymyn fydd gwahardd dros dro bob cerbyd (ac eithrio'r rheini a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys), beiciwr a cherddwr rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A470 o'r enw Stryd y Bont sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r B5106 ym Mhont Fawr i gyfeiriad y gogledd hyd at ei chyffordd â'r A548 Heol Dinbych am bellter o 160 o fetrau.

Y llwybr arall ar gyfer yr holl draffig trwodd sy'n teithio tua'r gogledd o bwynt deheuol y darn o'r ffordd sydd ar gau fydd mynd ar yr A470 tua'r de i Fetws-y-coed, ar yr A5 tua'r gogledd-orllewin i Gyffordd 11 yr A55 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt), ar yr A55 tua'r dwyrain i Gyffordd 19 (Glan Conwy) a dychwelyd tua'r de ar yr A470 i bwynt gogleddol y darn o'r ffordd sydd ar gau. I'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r de o bwynt gogleddol y darn o'r ffordd sydd ar gau.

Y llwybr arall ar gyfer traffig lleol sy'n teithio tua'r gogledd ar yr A470 fydd mynd tua'r gogledd ar Ffordd Tanyrysgol a Ffordd Talybont a thua'r gorllewin ar Ffordd Pari i ailymuno â'r A470.

Y llwybr arall ar gyfer traffig lleol sy'n teithio tua'r de ar yr A470 fydd mynd tua'r dwyrain ar Heol Dinbych, ac yna tua'r de ar Heol Watling a Glanrhyd i ail-ymuno â'r A470.

Ni fydd modd i gerbydau dros 3.0 metr o led (ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys ac ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus leol) ddefnyddio'r llwybrau dargyfeirio lleol a dylent ddilyn y llwybr arall ar gyfer traffig trwodd.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau dros dro, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn weithredol rhwng 06:00 o'r gloch a 23:00 o'r gloch ar 21 Tachwedd 2021.

Dim ond yn ystod yr amseroedd a'r dyddiad a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn arfaethedig fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

THE A470 TRUNK ROAD (BRIDGE STREET, LLANRWST, CONWY) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES, CYCLISTS AND PEDESTRIANS) ORDER 2021

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A470 trunk road at Bridge Street, Llanrwst in the County Borough of Conwy.

The effect of the Order will be to temporarily prohibit all vehicles, (other than those being used by the emergency services) cyclists and pedestrians, from proceeding on the length of the A470 trunk road known as Bridge Street that extends from its junction with the B5106 at Pont Fawr in a northerly direction to its junction with the A548 Denbigh Street for a distance of 160 metres.

The alternative route for all northbound through traffic from the southern point of closure will be via the southbound A470 to Betws y Coed, north-westbound A5 to the A55 Junction 11 (Llys y Gwynt Interchange), eastbound A55 to Junction 19 (Glan Conwy) and return southbound on the A470 to the northern point of the closure. Vice versa for southbound vehicles from the northern point of closure.

The alternative route for local northbound traffic on the A470 will be via the northbound School Bank Road and Talybont Road and the westbound Parry Road to re-join the A470.

The alternative route for local southbound traffic on the A470 will be via the eastbound Denbigh Street, and the southbound Watling Street and Conwy Terrace to re-join the A470.

Vehicles over 3.0 metres wide (other than those being used by the emergency services and for local public transport) will be unable to use the local diversion routes and should follow the through traffic alternative route.

The temporary prohibitions, which will be signed accordingly, is expected to operate between 06:00 hours and 23:00 hours on 21 November 2021.

Although the proposed Order is only expected to operate during the times and dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months as a contingency should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

J SADDLER
Transport
Welsh Government